



STOCK
MARKET
CHALLENGE



Canllaw i Ddisgyblion

Croeso i Her y Farchnad Stoc...

...cyfle unigryw i chi a'ch tîm brofi'r cyffro o ddelio ar lawr masnachu byw.

Bydd y tîm â'r portffolio uchaf ar ôl gorffen masnachu yn ennill tlws a bydd pob disgybl buddugol yn cael gwobr.

Pob lwc a mwynhewch yr her!

Chwarae'r gêm

Bydd Her y Farchnad Stoc yn rhoi cyfle i chi brofi'r cyffro o ddelio ar lawr masnachu byw mewn cystadleuaeth ag ysgolion eraill yn y rhanbarth.

Byddwch yn masnachu mewn stociau cwmni a chyfnewid tramor yn union fel y bydd broceriaid yn ei wneud ar loriau masnachu ac ar-lein drwy'r byd bob diwrnod.

Bydd gan bob tîm bortffolio o gyfranddaliadau ac ewros ar ddechrau'r gêm. Nod y gêm yw cynyddu gwerth portffolio eich tîm drwy brynu a gwerthu cyfranddaliadau yn y naw cwmni ar y rhestr, a thrwy fasnachu yn yr ewro.

Rhennir y gêm yn bum niwrnod, o ddydd Llun i ddydd Gwener ym mywyd marchnad, gyda phob diwrnod yn para tua ugain munud.

Bydd pum chwaraewr yn eich tîm: Rheolwr Cyllid, Dadansoddwr Buddsoddi, Dadansoddwr Cyfryngol, Masnachwr Llawr (Prynwr) a Masnachwr Llawr (Gwerthwr).

Y tîm sy'n ennill yw'r un â'r cyfanswm uchaf o gyfranddaliadau, ewros ac arian ar ôl gorffen masnachu.

Prynu a gwerthu

Byddwch yn masnachu yn y cwmnïau ar y rhestr a'r ewro ar y prisiau sydd i'w gweld ar y sgrin. Mae prynu a gwerthu'n digwydd yn y man masnachu canolog.

Caiff cyfranddaliadau'r cwmnïau eu prynu a'u gwerthu mewn tystysgrifau o 1,000, sef y pris sy'n cael ei roi ar y sgrin. Caiff yr ewro ei brynu a'i werthu ar ei gyfradd gyfnewid sterling.

Pan fyddwch yn prynu ewros byddwn yn lluosogi faint o sterling fydd gennych yn ôl y gyfradd gyfnewid ac yn rhoi'r swm yma i chi mewn ewros. Bydd y swm yma'n cael ei ysgrifennu ar fil cyfnewid, a gellir ei newid nôl yn sterling ar unrhyw adeg. Pan fyddwch yn gwerthu ewros byddwch yn cael punnoedd yn gyfnewid am eich bil cyfnewid ar y gyfradd gyfredol.



Newyddion a gwybodaeth

Trwy gydol y gêm byddwch yn derbyn gwybodaeth sy'n effeithio ar y cwmnïau a pherfformiad a phris yr ewro. Bydd eich penderfyniadau ynglŷn â pha fuddsoddiadau i'w gwneud yn seiliedig ar yr wybodaeth hon.

Daw'r wybodaeth o:

- bapur newydd ariannol dyddiol
- bwletinâu newyddion teledu
- bwletinâu newyddion radio
- newyddion brys

Gwybodaeth masnachu

Bydd stociau cwmnïau yn cael eu masnachu mewn tystysgrifau o 1,000 cyfran. Mae'r pris a nodir ar y sgrin yn y gêm ar gyfer 1,000 cyfran. Mae'r ewro'n masnachu ar ei gyfradd gyfnewid â'r bunt.

Clink

Banc ar y rhyngwrwd y mae'r banc buddsoddi o Iwerddon, Delaney Dunn, yn berchen arno. Cafodd ei lansio yn 1999 a llwyddodd i gael un filiwn o gwsmeriaid y llynedd. Prif gystadleuydd e-ariannol y cwmni yw Yoke. Mae'r ddau yn cystadlu am y farchnad cyfrif cyfredol werthfawr. Ei reolwr gyfarwyddwr yw Mary Houlihan.

Pris Agoriadol Cyfranddaliadau: £1,000

Go-Easy

Cafodd ei ffurfio yn ddiweddar yn sgîl uno dau gwmni awyrennau sy'n cynnig teithiau rhad ac mae bellach yn arwain ym maes teithio awyrennau rhad gyda 60% o gyfran y farchnad. Prif gystadleuydd y cwmni yw'r cwmni awyrennau o Iwerddon, Green Air. Rheolwr Gyfarwyddwr Go-Easy yw Selima Devere.

Pris Agoriadol Cyfranddaliadau: £900

Hapstons

Bragdy mwyaf y DU yn dilyn sawl achos o uno a chaffael y llynedd. Mae'n berchen ar fariau gwin cadwyn Susie's. Daeth ei gwrw chwerw Slack Jack i'r brig yn rhestr peint gorau y DU yr Ymgyrch dros Gwrw lawn yn y 5 mlynedd ddiwethaf. Ei reolwr gyfarwyddwr yw Edwina Slack.

Pris Agoriadol Cyfranddaliadau: £1,100

Immedia

Cynhyrchwyr ffilmiau nodwedd annibynnol a rhaglenni teledu masnachol. Er iddo gael ei ganmol am ei ffilmiau nodwedd llwyddiannus, beirniadwyd y cwmni am arwain darlledu yn y DU ar drywydd sioeau gêm o'r fath a geir yn UDA a theledu realaeth. Y Rheolwr Gyfarwyddwr ar y Cyd yw Baz McGraw ac Ed East.

Pris Agoriadol Cyfranddaliadau: £900

Insanto

Cwmni bwydydd wedi'u haddasu'n enetig a biotechnoleg yn UDA. Cafodd ei ailariannu ar raddfa fawr ar ôl uno â chwmni biotechnoleg o'r DU. Dim cystadleuwyr o'r DU ym maes bwydydd GM ond mae nifer o gwmnïau biotechnoleg eraill yn cystadlu am y farchnad werthfawr bosibl ym maes patentau genynnau. Y rheolwr gyfarwyddwr yw Eddie Langan.

Pris Agoriadol Cyfranddaliadau: £900



Roman Cars

Gwneuthurwr ceir chwaraeon ers y 1950au. Yn ôl y rheolwr gyfarwyddwr, Dick Kelly, mae'r cwmni wedi parhau i ymdrechu'n galed ers hynny. Mae Roman wedi goroesi sawl ymgais i'w drosfeddiannu gan gystadleuwyr mwy dros y degawd diwethaf.

Pris Agoriadol Cyfranddaliadau: £1,100

Sago

Gwneuthurwr gemau cyfrifiadurol a bwrdd a sefydlwyd gan Cedric Corcoran. Mae gwerthiannau gêm gyntaf y cwmni, y Plunkett poblogaidd, wedi ariannu'r cwmni am ddegawdau. Cysylltiadau cryf gyda'r Dwyrain Pell. Y rheolwr gyfarwyddwr, Juliet Corcoran, yw wyres y sylfaenydd.

Pris Agoriadol Cyfranddaliadau: £900

Sinventol

Cwmni fferyllol o'r Almaen. Arweinydd y farchnad ym maes meddyginiaethau ffliw a diffyg traul dros y cownter. Mae'r cwmni hefyd yn gwerthu cyffuriau HIV/AIDS cyfunol i'r byd datblygol. Ei brif gystadleuwr yn y farchnad dramor yw cwmni Pharnal o Ffrainc. Y rheolwr gyfarwyddwr yw Graham Porter.

Pris Agoriadol Cyfranddaliadau: £1,100

Velocita

Cwmni rheoli rhwydwaith trên y DU. Gwnaeth y llywodraeth ailsefydlu'r cwmni yn dilyn cyfnod trychinebus y cwmni preifat RailUK ac mae bellach yn rhedeg fel partneriaeth cyhoeddus-preifat. Mae ei randdeiliaid yn gobeithio bod mantra polisi newydd y llywodraeth 'trafnidiaeth, trafndiaeth, trafndiaeth', yn golygu buddsoddiad mawr. Y rheolwr gyfarwyddwr yw cyn-Brif Weithredwr Eurostar o Ffrainc, Jean Vanier.

Pris Agoriadol Cyfranddaliadau: £900

Ewro

Mae deg gwlad Ewropeaidd bellach yn defnyddio ewros ond nid yw'r DU wedi penderfynu eto p'un a ddylai ymuno ai peidio. Mae'r llywodraeth yn dweud y bydd yn penderfynu ar ôl y refferendwm sydd ar y gweill. Mae'r ewro wedi bod ar ei fyny yn ddiweddar oherwydd y ddoler wan wrth i fygythiad o ddirwasgiad yn y DU gynyddu.

Cyfradd agoriadol £ = Ewro: 1.80

Cyngor ar fasnachu

1. Darllenwch y papurau newydd a phenderfynu pa fuddsoddiadau rydych yn mynd i'w prynu a'u gwerthu ar ddechrau pob dydd.
2. Talwch sylw gofalus i'r bwletinâu newyddion ar y teledu a'r radio a phenderfynu sut y gall y newyddion diweddaraf effeithio'r prisiau.
3. Prynu a gwerthu yn aml yw'r allwedd i wneud yn dda yn y gêm.
4. Gwnewch yn siwr nad yw'ch tîm yn dal gafael ar ormod o arian parod.
5. Gwnewch nodyn o'r pris a dalwyd gennych wrth brynu eich cyfranddaliadau neu ewros. Yna, byddwch yn gwybod i werthu i sicrhau'r elw mwyaf.



Datblygu eich sgiliau

Bydd cymryd rhan yn Her y Farchnad Stoc yn dangos i chi sut brofiad fydd gweithio fel masnachwr ar y marchnadoedd ariannol. Byddwch yn prynu ac yn gwerthu cyfrandaliadau ac arian cyfred yn union fel y bydd masnachwyr proffesiynol yn ei wneud ar loriau masnachu ac mewn swyddfeydd mewn dinasoedd ledled y byd.

Y peth mwyaf gwerthfawr y byddwch chi'n ei ddysgu o Her y Farchnad Stoc yw sut i ddefnyddio a datblygu rhai o'r sgiliau allweddol fydd eu hangen arnoch ar gyfer unrhyw swydd, pa lwybr gyrfaol bynnag a ddewiswch.

Y sgîl pwysicaf o'r rhain yw gweithio mewn tîm. Mae gan bob un ohonoch eich rôl eich hun yn y gêm, ond fel mewn unrhyw swydd, ewch chi ddim yn bell drwy weithio ar eich pen eich hun yn unig. Yn yr her heddiw, bydd yn rhaid i chi ddysgu sut i weithio'n dda gyda'ch gilydd a gwneud penderfyniadau fel tîm.

I gael y budd mwyaf o Her y Farchnad Stoc bydd angen i chi ddeall yr effaith y gallai penderfyniadau cwmni, ymddygiad pobl a digwyddiadau annisgwyl yn y newyddion eu cael ar brisiau cyfrandaliadau. Dyma sgîl arall y byddwch yn ei ddefnyddio heddiw, sef dadansoddi gwybodaeth.

Nid gamblo yw Her y Farchnad Stoc. Bydd angen i chi wneud eich ymchwil a chasglu gwybodaeth o'r newyddion er mwyn buddsoddi'n llwyddiannus. Bydd angen i chi benderfynu a fydd stori newyddion am gwmni penodol yn cael effaith dda neu wael ar y pris.

Hefyd, bydd angen i chi ddefnyddio eich sgiliau cyfathrebu, nid yn unig i dehongli'r wybodaeth a gewch ond hefyd i roi gwybod i weddill eich tîm am y datblygiadau diweddaraf yn y newyddion.

Mae Her y Farchnad Stoc yn symud yn gyflym ac yn gryn sialens ac mae angen gweithio o dan bwysau. Wrth i chi wynebu heriau yn ystod y gêm bydd angen i chi ddefnyddio eich sgiliau datrys problemau gan wneud yn siwr eich bod yn gweithio gyda'ch gilydd fel tîm bob amser.

